

## SHEEN, THOMAS (1718 - 1790), cyngorwr Methodistaidd ac Antinomiad

**Enw:** Thomas Sheen  
**Dyddiad geni:** 1718  
**Dyddiad marw:** 1790  
**Rhiant:** Margaret Sheen  
**Rhiant:** William Sheen  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** cyngorwr Methodistaidd ac Antinomiad  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Bedyddiwyd ef yn eglwys Glasgwm, sir Faesyfed, 8 Tachwedd 1718, mab William a Margaret Sheen o'r plwyf. Ni wyddys pa bryd y dechreuodd gynghori gyda'r Methodistiaid. Daeth o dan ddylanwad athrawiaeth gyfeiliornus James Beaumont yn 1748. Perthynai i blaid Howel Harris yn 1750, ond cefnodd yn fuan a ffurfio plaid o'i ganlynwyr yn ardaloedd Llanfair-ym-Muellt. Dywedir iddo ddylanwadu ar eraill, megis Moses Lewis a Thomas Meredith. Credir mai rhyw gymysgedd o gyfriniaeth a Monoffysiaeth (neu Apolinarieath, efallai) oedd ei athrawiaeth ef a'i gymheiriaid. Canodd un o'i ddilynwyr, Walter Watkin o Aberhonddu, farwnad i'w goffadwriaeth. Bu farw 28 Chwefror 1790.

### Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

### Ffynonellau

- W. Watkin, *Marwnad Thomas Sheen* (1790), 1790  
*Methodistiaeth Cymru* (1851â€"6), iii, 316  
Robert Jones (Rhoslan), *Drych yr Amseroedd* (Trefriw 1820), 136  
J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd (1895-1897)*, i, 226  
J. Gwili Jenkins, *Hanfod Duw a Pherson Crist: athrawiaeth y Drindod a Duwdod Crist, yn bennaf yn ei pherthynas Â€ Chymru* (Liverpool 1931), 140  
W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry* (Llanidloes 1869), 652  
*The Transactions of the Radnorshire Society*, xiv, 1944  
*Y Traethodydd*, 1946, 97-102

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734529

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Roberts, G. M., (1953). SHEEN, THOMAS (1718 - 1790), cyngorwr Methodistaidd ac Antinomiad. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-SHEE-THO-1718>

Clipwrdd

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government